



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

LAW YN LLAW AT IECHYD MEDDWL YNG NGOGLEDD CYMRU

+ DIWEDDARIAD STRATEGOL

Chwefror 2018

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru yw ein cynllun i bob oed ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2021. Mae wedi cael ei greu gyda'n sefydliadau partner, a gydag unigolion sydd wedi cael profiad byw o broblemau iechyd meddwl.



Ein strategaeth

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru yw ein cynllun i bob oed ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2021. Mae wedi cael ei greu gyda'n sefydliadau partner, a gydag unigolion sydd wedi cael profiad byw o broblemau iechyd meddwl.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan Caniad, sefydliad a wnaethom ei greu i gynnwys unigolion sydd â phrofiad byw, i ddylunio ein gwasanaethau iechyd meddwl, eu darparu a'u dadansoddi.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein bwriad o gynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau sy'n:

- Hyrwyddo iechyd a lles i bawb, gan ganolbwyntio ar atal salwch meddwl, ac ymyriad cynnar pan fo angen;
- Trin cyflyrau iechyd meddwl cyffredin yn y gymuned cyn gynted â phosibl;
- Yn y gymuned lle bo'n bosibl, gan leihau ein dibyniaeth ar ofal cleifion mewnol;
- Dynodi salwch meddwl difrifol a'i drin cyn gynted â phosibl;
- Rheoli pyliau llym a difrifol o iechyd meddwl yn ddiogel, yn drugarog, ac yn effeithiol;
- Cefnogi unigolion i wella, i adennill a dysgu'r sgiliau y maent eu hangen ar ôl salwch meddwl; ac
- Asesu'r ystod lawn o broblemau iechyd meddwl a'u trin, gan weithio ochr yn ochr â gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion iechyd corfforol

Pwyswch yma i ddarllen y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru yn ei chyfanrwydd.

“**Ers Caniad, mae gennyf ffordd o ddweud wrth uwch reolwyr y bwrdd iechyd, nad yw gwasanaeth yn gweithio, a bod angen i ni ganfod ffordd newydd o wneud pethau**”

- Richard o Caniad

“**Oherwydd Caniad rydym yn awr yn gweld gwasanaethau yn gwrando ac yn ystyried beth mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei ddweud. Mae'n rhoi llais i unigolion heb lais a phŵer i unigolion heb bŵer. Mae unigolion yn awr yn sylweddoli eu bod wirioneddol yn cyfrif**”

- Ieuan o Caniad



Gwella gofal mewn argyfwng

Ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn gyntaf (hyd at fis Medi 2018) yw sicrhau system gofal brys effeithiol i unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl llym. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio i atal argyfwng iechyd meddwl drwy ganolbwyntio ar ymyriad cynnar a hyrwyddo gwydnwch emosiynol
- Datblygu dewisiadau amgen lleol yn lle derbyn i'r ysbyty: caffis argyfwng, noddfeydd, gwasanaethau triniaeth yn y cartref wedi'u hatgyfnerthu, gwasanaethau camu i lawr
- Adolygu'r prosesau rheolaidd o reoli gwelyau a llif cleifion a'u gwella
- Gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder troseddol i ddargyfeirio'r galw sy'n codi oddi wrth yr heddlu, drwy drefniadau adran 136, staff iechyd meddwl yn yr ystafell rheoli neu frysbenneu ar y stryd.
- Gweithio gydag asiantaethau gwirfoddol a'r trydydd sector i adolygu eu rôl gydag unigolion mewn perygl o argyfyngau iechyd meddwl difrifol
- Adolygu sut mae Timau Iechyd Meddwl Cymuned yn gweithio gydag unigolion mewn perygl cyfnodol o argyfyngau iechyd meddwl difrifol

Gwneud iddo ddigwydd

Mae datblygu cynllun clir ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau iechyd meddwl yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen. Rydym yn benderfynol o droi'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth yn newid gwirioneddol ac ystyrlon.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cydnabod bod angen i ni symud oddi wrth ddull gorchymyn a rheoli canolog, ac yn hytrach annog datblygiad **datrysiadau lleol i broblemau lleol**. Nid yw rhywbeth sy'n gweithio'n dda mewn un ardal o Ogledd Cymru o reidrwydd yn mynd i weithio yn rhywle arall.

Mae cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu'r strategaeth felly wedi cael ei ddirprwyo i tair **Tîm Gweithredu Lleol** (LITs) sy'n cwmpasu Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae aelodau'r LIT yn cynnwys cynrychiolwyr o staff BIPBC, cynrychiolwyr cleifion a gofalwyr, y trydydd sector a sefydliadau partner.

Er bod bob un o'r LIT yn canolbwyntio ar flaenoriaeth y flwyddyn gyntaf o wella gofal mewn argyfwng, maent hefyd yn gweithio i ddynodi datrysiadau i broblemau lleol eraill sydd wedi cael eu dynodi gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a'n sefydliadau partner.

Er enghraifft, mae LIT Gwynedd a Môn yn gweithio i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei lle ar gyfer unigolion y gall eu hiechyd meddwl gael ei effeithio gan gyflwyno Credyd Cynhwysol yn y dyfodol agos.

Er mwyn atgyfnerthu gwaith y Timau Gweithredu Lleol, rydym hefyd yn gweithio i gynhyrchu opsiynau ar gyfer **modelau amlddisgyblaethol o weithio** a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi llwybrau gwasanaeth cyfredol, edrych ar oblygiadau i'r gweithlu, a chytuno ar y safonau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer modelau newydd o weithio.

Yn ogystal â helpu i gefnogi gweithredu'r strategaeth iechyd meddwl, bydd canlyniad y gwaith hwn yn helpu i lywio cynllun Integredig Tymor Canolig y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Timau Gweithredu Lleol yn adrodd i Grŵp Cyflawni a'r Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw yng Ngogledd Cymru.

Bydd diweddariad ar eu cynnydd yn cael ei ddarparu ar ôl cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd ym mis Mawrth. Mae datblygu cynllun clir ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau iechyd meddwl yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen. Rydym yn benderfynol o droi'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth yn newid gwirioneddol ac ystyrlon.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cydnabod bod angen i ni symud oddi wrth ddull gorchymyn a rheoli canolog, ac yn hytrach annog datblygiad datrysiadau lleol i broblemau lleol. Nid yw rhywbeth sy'n gweithio'n dda mewn un ardal o Ogledd Cymru o reidrwydd yn mynd i weithio yn rhywle arall.

Mae cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu'r strategaeth felly wedi cael ei ddirprwyo i bedwar Tîm Gweithredu Lleol (LITs) sy'n cwmpasu Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae aelodau'r LIT yn cynnwys cynrychiolwyr o staff BIPBC, cynrychiolwyr cleifion a gofalwyr, y trydydd sector a sefydliadau partner.

Er bod bob un o'r LIT yn canolbwyntio ar flaenoriaeth y flwyddyn gyntaf o wella gofal mewn argyfwng, maent hefyd yn gweithio i ddynodi datrysiadau i broblemau lleol eraill sydd wedi cael eu dynodi gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a'n sefydliadau partner.

Er enghraifft, mae LIT Gwynedd a Môn yn gweithio i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei lle ar gyfer unigolion y gall eu hiechyd meddwl gael ei effeithio gan gyflwyno Credyd Cynhwysol yn y dyfodol agos.

Er mwyn atgyfnerthu gwaith y Timau Gweithredu Lleol, rydym hefyd yn gweithio i gynhyrchu opsiynau ar gyfer modelau amlddisgyblaethol o weithio a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r uchelgeisiau a amlinellir yn y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi llwybrau gwasanaeth cyfredol, edrych ar oblygiadau i'r gweithlu, a chytuno ar y safonau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer modelau newydd o weithio.

Yn ogystal â helpu i gefnogi gweithredu'r strategaeth iechyd meddwl, bydd canlyniad y gwaith hwn yn helpu i lywio cynllun Integredig Tymor Canolig y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Timau Gweithredu Lleol yn adrodd i Grŵp Cyflawni a'r Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw yng Ngogledd Cymru.

Bydd diweddariad ar eu cynnydd yn cael ei ddarparu ar ôl cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at lechyd ym mis Mawrth.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y strategaeth, e-bostiwch Lesley Singleton - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phartneriaethau ar **Lesley.singleton@wales.nhs.uk**